# Portread cartrefol JOHN ROBERTS o'i hen gyfaill oes

## Joni'r Groeslon

YCHYDIG a feddyliai Jane Jones ar y seithfed dydd ar hugain hwnnw o Fedi 1904 y byddai'r llais bach a griai wrth ei hochr wrth i'w berchennog weld y byd am y tro cyntaf yn dod yn un o leisiau mwyaf adnabyddus Cymru.

Bachgen bach ofnus braidd (ar ei gyfaddefiad ei hun ymhen blynyddoedd wedyn) oedd John William, Rathbone Terrace, y Groeslon. Ond ofnus neu beidio 'roedd ei lygaid a'i glustiau (a'i ffroenau hefyd) yn fyw iawn i'r hyn oedd o'i gwmpas.

Pobl Rathbone Terrace, pobl Tai Cowrt, pobl Brynrhos a phobl Llandwrog; eu rhagoriaethau a'u gwendidau, y rhagoriaethau i'w canmol a'u hedmygu, y gwendidau i'w maddau a'u hanghofio. Wedi'r cwbl, pobl y Groeslon a Llandwrog oeddynt, ac o ganlyniad yn bobl arbennig, ddetholedig.

Clywodd ei glustiau eu lleisiau Cymreig yn siarad iaith gadarn blynyddoedd cynnar y ganrif; clywodd eu hymadroddion sicr a'u geiriau Cymraeg naturiol. Sylwodd ei lygaid ar osgo a ffurf ac arferiad.

Wrth i Johnnie Rathbone dyfu a datblygu i fod yn John Gwilym Jones, aeddfedodd ei brofiadau i fod yn gariad dwfn, dwfn at ei fro a'i phobl, ac ymledu hefyd at ei genedl a'i wlad.

Ofer ceisio deall y dramodydd a'r llenor heb ddeall y pethau hyn yn gyntaf.

* * *

Y MAE un neu ddau o bobl y Groeslon sy'n hŷn na John Gwilym - dim ond un neu dda. Ond hyd yn oed o'u cyfri' nhw, 'does neb o gwbl yn cofio'r pentref hebddo.

Mae dweud ei fod yn rhan naturiol o fywyd y lle fel dweud fod y môr yn Ninas Dinlle. Oedd, 'roedd o'n mynychu cyfarfodydd, yn arfer mynd i chwarae biliards i'r hen neuadd, yn mynychu (a darlithio) yn y dosbarth WEA, yn mynd i arddangosfa a sioe. 'Roedd o'n un o'r criw bychan a gychwynnodd Eisteddfod Gadeiriol y Groeslon wedi i ddyddiau eisteddfodau'r capeli ddod i ben, a bu'n rhan amlwg ohoni hyd yr eisteddfod ddiwetha eleni. Bydd yn rhaid cynnal y nesaf hebddo.

Ond o bopeth, gellir dweud mai Capel Brynrhos oedd biau'r lle blaenaf yn ei feddwl. Mor addas oedd iddo ddiweddu'r daith yn y lle hwnnw, ac nid yn y lle hwnnw'n unig, ond yn cymryd rhan flaenllaw yn y cyfarfod arbennig i nodi agoriad yr hen festri fel y capel newydd.

Sôn yr oedd o yn ei anerchiad am yr arweinwyr a gofiai pan oedd o yn blentyn. Edrychodd o gwmpas y muriau a chofio'r darluniau, y marwnadau, y sampleri a grogai yno gynt - "a rhaid imi beidio anghofio'r modulator - rhagor am hwnnw toc."

Pawb yn gwrando, hyd yn oed y plant lleiaf, heb smic. Ac yna fe ddigwyddodd ... Wrth fynd adre, un eneth fach yn troi at ei mam, "Chawn ni ddim gwybod am y modulator rwan, yn na chawn, Mam?"

Felly y daeth i ben oes hir o fod yn aelod selog gan fynychu'n rheolaidd, er nad oedd (yn ei eiriau ei hun) yn derbyn y dogmâu. "Pethau yn rhannu pobl ydyn nhw."

Nid wyf yn meddwl fy mod yn amharchus ohono wrth ddweud hyn (yn hytrach, i'r gwrthwyneb) - 'doedd neb o aelodau'r capel yn ei ystyried yn Rhywun Pwysig, ond ei dderbyn fel un ohonynt. A dyna'n sicr a ddymunai yntau.

'Doedd o ddim yn "ddyn cyhoeddus" yn hen ystyr y capel i'r gair. Ni fyddai byth yn cymryd rhan, fel y dywedir. Os oedd angen cynhyrchu drama neu ddysgu parti ar gyfer cyfarfod arbennig, neu hyd yn oed olchi llestri ar ôl swper, iawn! A 'does neb a ŵyr sawl gwaith yr aeth i'w boced i helpu chwyddo rhyw gronfa neu'i gilydd, a neb yn gwybod pwy oedd y "di-enw" ar y rhestr yn y lobi.

Ond un peth yr edrychai ymlaen ato bob tymor oedd ei noson i roi darlith i'r Gymdeithas Lenyddol. Er i bawb arall sôn am "Y Gymdeithas", iddo fo "Y Gymdeithas Lenyddol" oedd hi yn ddifeth. Mae hynny'n arwyddocaol. Do, fe glywsom am y Ceiliog Ffesant, am y Gwyddau, am Ffani Rolant, am Lwynogod Bychain Pantycelyn ac am ddihiryn Daniel Owen, Capten Trefor.

Nid llenyddol oedd ei sgwrs bob amser. Clywsom hefyd am hen siopau'r Groeslon, rhagor na 30 ohonynt ar un adeg, ac am y cymeriadau a'u cadwai.

Profiad rhyfeddol oedd hyn, oherwydd yr oedd diddordeb John mewn achau mor fyw fel yr oedd ganddo rhyw gart-achau neilltuol o gymhleth yn ei ben, a medrai olrhain y cysylltiad rhwng Lisi Jên a gadwai'r siop-a'r-siop a Dafydd y fan-a'r-fan, ac yntau wedyn yn ŵr i chwaer hwn-a-hwn, "a rydach chi, Bet, yn ei gofio fo'n iawn."

Nid ei gapel ei hun a gafodd y pleser o'i wrando. Bu'n annerch Cymdeithas Brynrodyn a Glanrhyd ar hyd y blynyddoedd, ac edrychai ymlaen at fynd i Glwb y Cilgwyn, Carmel, neu Glwb y Bytholwyrdd. Byddai'n gloywi wrth ddweud "Maen nhw wedi gofyn imi siarad yn y lle-a'r-lle ddydd Iau nesaf." Os holai rhywun wedyn sut hwyl gafodd o, yr ateb fyddai "Wir, roeddan nhw'n glên iawn." Roedd *clên* yn air pwysig.

Nid un i ddod i'r Gymdeithas pan gâi wahoddiad i siarad yno oedd John. Roedd o yn y seti yn rheolaidd.

* * *

MAE'R Arolygwr yn canu'r gloch, ac wedi saib fechan mae'n edrych yn awgrymog tua'r dosbarth yn y sêt o dan y cloc. Dynion ifanc sydd yn y dosbarth hwnnw. Mae'r Maes Llafur eleni yn Efengyl Ioan, a bu'r aelodau'n trafod y cwestiwn "Pwy a bechodd ai hwn ai ei rieni?"

Fel dynion ifanc ymarferol o'r oes fodern, mae rhai yn gweld y cwestiwn yn naïf. Un aelod, mwy uniongred na'r gweddill yn dadlau'n gryf fod pechod yn siwr o ddwyn ei gosb, fod pechod yn absoliwt (gair da!) "Pechod ydi pechod," meddai.

Yr athro'n gwybod yn iawn nad myfyrwyr coleg oedd y rhain, ond gweithwyr garej, siop, ffatri, ffarm, ac yn eu harwain heb iddyn nhw sylweddoli. Tipyn o syndod, hefyd, oedd ei glywed yn dweud nad ydi Duw yn ymyrryd ym mywydau pobl. Tybed? a phawb yn siarad ar draws ei gilydd.

"Ond mae'r byd yn well nag oedd o, 'does dim dwywaith am hynny."

"Mae'n gwestiwn gen i" meddai'r athro, "rydw i'n digwydd bod yn credu yn y pechod gwreiddiol, 'dach chi'n dallt."

"Adda ac Efa a stwff felly?"

"Aros funud imi gael esbonio ..." a'r egluro yn dangos fel y mae dynoliaeth wrth ddatblygu yn mynd yn fwy ysgeler yr un pryd. Y mae'r naill yn mantoli'r llall. Ac wrth ymgodymu â syniadau newydd, llawer o we pry' cop yn cael ei sgubo ymaith o feddyliau ifanc.

A'r gloch yn canu am yr ail waith ... i atal y cwbl.

* * *

RYDW I wedi galw yn Angorfa ar fy ffordd adre o Bwyllgor yr Aelwyd. Pwy sydd yno uwchben yr hyn a elwir yn *parsing* ond 'Beti' (nid dyna'i henw). Rhaid imi eistedd - yn dawel.

Dydi Beti druan ddim yn cael llawer o hwyl ar y wers Saesneg, ac *adjectival clauses* a phethau cyffelyb yn peri tipyn o ddryswch iddi, ond mae'r ddawn ryfedd sydd gan John yn gymorth hawdd ei gael.

Wedi iddi fynd, awgrymu nad oedd Saesneg yn un o'i phynciau gorau. "Mi neith hi'n iawn," oedd y sylw. "Mae hi'r un ffunud â'i nain, a 'doedd dim troi ar honno, er nad oedd llawer yn ei phen hi."

Rydw i ar gychwyn, ond rhaid aros eto imi gael clywed Luned yn mynd dros ei darn adrodd ar gyfer Eisteddfod Brynrhos. "Rhoswch. Mae hi'n ei ddeud o'n ddigon o ryfeddod. Dim o'r hen lais gneud gwirion yna; ei ddeud o'n naturiol, braf."

Roedd hi'n dda hefyd, a phan ddaeth yr eisteddfod, hi a enillodd, a Llwyd o'r Bryn yn ei chanmol, ac ychwanegu efo winc fawr, "Tybed ydw i'n clywed ogla John Gwilym ar rai o'r adroddwrs yma heno?"

Adroddwyr, Beti a'i Saesneg, Dewi a'i lyfr gosod Cymraeg, Mari a'i gwers Ysgrythur ... buont oll, a llawer mwy, yn troedio i Angorfa, lle'r oedd awr a rhagor o amser diwarafun athro penigamp yn eu disgwyl.

* * *

MAE HI'N nos Sul yn y parlwr ffrynt yn Angorfa. Dau neu dri ohonom a John yn eistedd ar y pwffe yn ymyl y lle tân. Toc daw curiad ysgafn ar ddrws y ffrynt - "Helo 'ma?" "Vaughan! Ty'd i mewn." Dim angen cloi'r drysau yn y dyddiau hynny.

Cyn bo hir y mae chwech, saith, wyth neu ragor o bobl ifanc yn y parlwr taclus a'r sgwrsio'n hwyliog am ddigwyddiadau'r dydd a'r wythnos. Ambell dro, rhoi lliynyn mesur ar un o bregethwyr y Sul, ond anaml y datblygai hynny'n fater o Ddirfawr Bwys.

Tynnu coes, hanesion, ffilm y Majestic neithiwr, cymeriadau - ac un ohonyn nhw y munud hwn yn y gegin ganol yn cael darn o deisen ar ei ffordd adre o Gapel y Bwlan. Does yr un nos Sul yn gyflawn i John heb fod R.T. yn galw heibio.

Y sgwrsio yn y parlwr yn debyg i'r chwarae pêl hwnnw ar lan y môr, lle mae'r un yn y canol yn taflu'r bêl yn ôl a blaen rhwng y chwaraewyr yn y cylch. John sydd yn y canol.

Yn sydyn y mae'r sgwrs yn tanio. Rhywun wedi enwi gwleidydd amlwg, a chawn wybod ei holl ffaeleddau am nad ydi Cymru'n cael y sylw haeddiannol ganddo. A'r condemniad "Dydi'r peth ddim yn gneud sens." Onid ydym yn bethau cymhleth? Dyma'r un sy'n dal bod teimladau yn bwysicach na dim arall yng ngwead ein bod, ond eto yn pwyso ar synnwyr a rheswm. "Rwy'n gymysg oll i gyd."

Y clociau'n dechrau taro deg, y cloc mawr gyntaf a'r *American Clock* wedyn. Dewi'n codi. "Wyt ti'n mynd?" "Rhaid imi godi bore fory, John bach."

/ dud. 9